Mae Ieuan Iâl wedi rhoi disgrifiad gwell fyth inni o beth oedd yn y Colomendy wedi iddo gael ei ailadeiladu yn ystod 1810-11:

> *'Mae yn y Colomendy amryw ddarluniau tra gwerthfawr. Mae yma hefyd lawer o bethau godidog iawn o waith y nodedig Wilson y Lluniedydd; rhai golygfeydd tramor, a rhai darluniau gorwych o'i eiddo. Y mae lluniau George III a'i frawd y Duc o York, pan oeddynt yn fechgyn, y ddau ynghyd ar yr un darlun-len, y rhai a dynwyd gan Wilson ar ddeisyfiad y Dr. Hayter, Esgob Norwich, yn cael eu cymmeradwyo yn fawr gan eu perchenog Mr. Garnons. Nid yw y rhai hyn sydd y'meddiant Mr. Garnons yn gynlluniau (originals) ond rhai a dynwyd gan Wilson ei hun oddiwrth y rhai cyntaf. Mae yma fân ddarlun o dad Wilson, yr hwn a dynwyd ganddo yn ol fel yr oedd yn ei gofio gynt.*

Ar ddiwedd yr erthygl yn *Y Gwyliedydd* ceir troednodyn sy'n ychwanegu:

> *'Y cwbl o waith Wilsom yma, os nad wyf yn camsynied, ydynt y rhai canlynol:- George III a'r Duc o York, darlun o'r ddwyfron i fynnu o'i gyfnither Mrs C. Jones, o'i gefnder Mr E. Jones, o'i frawd, o Miss Wynne o Leeswood, un bychan o'i dad. Y Deml ar dân, Atalanta, Calisto, Boreu a Hwyr, Golygfa o'r graig a'r afon wrth y Loggerheads heb ei lwyr orphen, Golygfeydd tramor, a rhai pethau gwerthfawr eraill, ond nid wedi eu gorphen yn hollol.'*

Chwalwyd casgliad Colomendy wedi marwolaeth Mrs Garnons yn 1853-4. Aeth y rhan helaethaf o'r casgliad i'r Oriel Genedlaethol yn Llundain, er yn ddiddorol ddigon nid yw nifer o'r eitemau sydd yn cael eu rhestru gan Ieuan Iâl yno heddiw. Mae'n bosibl mai yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd y mae'r llun o Miss Wynne!

Yn un o lawysgrifau Panton yn y Llyfrgell Genedlaethol (Llawysgrif Ll.G.C. 9072E) ceir rhestr o luniau o waith Richard Wilson oedd yn y Colomendy yn 1786. Mae'r rhestr hon yn cyfeirio at naw darlun yn cynnwys 'wash drawing of Pen y Carreg Wen' ac un ar ddeg o bortreadau yn cynnwys 'small portrait of his father done from memory'. Mae'n bosibl mai hwn yw'r portread o John Wilson sydd yn awr ym meddiant y Llyfrgell Genedlaethol.

* * * *

MAE'N DEBYG mai yn ystod chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf y daeth gweithiau Wilson yn eitemau hynod gasgladwy; mae sôn am gopi o'i *Niobe* yn gwerthu am wyth can gini yn 1806, hyn tua wyth gwaith yn fwy na fyddai Wilson wedi ei gael amdano yn wreiddiol. Yn 1814 mewn arddangosfa o waith arlunwyr o Brydain arddangoswyd 87 o eitemau o waith Wilson. Un oedd wedi gwirioni ei ben ar waith Wilson oedd yr arlunydd enwog John Constable a ddywedodd wedi gweld eitemau o waith Wilson mewn arddangosfa fawreddog yn 1823:

> *'I recollect nothing so much as a large, solemn, bright warm, fresh landscape by Wilson, which still swims in my brain like a delicious dream . . . He is now walking arm in arm with Milton and Linnaeus. He was one of those appointed to show the world the hidden stores and beauties of nature.'*

Mae Wilson wedi creu cryn argraff ar lawer wedi hynny hefyd ac erbyn heddiw mae'n cael ei gydnabod fel arlunydd mawr, un o'r rhai cyntaf i ddangos fod yna bosibiliadau i arlunwyr yng Nghymru. Mae'n sicr fod i Gymru le cynnes yn ei galon ac mae sôn ei fod wedi dweud dro ar ôl tro fod tirwedd Cymru yn medru cynnig pob sialens oedd yn bosibl i unrhyw arlunydd golygfeydd.

**ETCHINGS,**

**FROM THE WORKS**

OF




**WITH SOME MEMOIRS OF HIS LIFE, &c.**

**BY THOMAS HASTINGS, ESQ.**

COLLECTOR OF HIS MAJESTY'S CUSTOMS.

" NON DUCTUS OFFICIO SED AMORE OPERIS." QUINTILLIAN.

PUBLISHED BY HURST, ROBINSON & CO. CHEAPSIDE, LONDON.

Johnson, Typ. Apollo Press, 1825. Brook Street, Holborn

*Rhan o dudalen deitl* Etchings from the Works of Ric(ard) Wilson . . . *gan Thomas Hastings a gyhoeddwyd yn 1825. Gwawdlun o Wilson o Waith Syr George Beaumont yn dyddio o tua 1775 yw'r llun. Mae'r llun gwreiddiol wedi bod ar goll ers blynyddoedd. 'Traced from an original sketch made from life by Sir Geo. Beaumont now in the posession of P. Ford' yw'r nodyn sydd gan Thomas Hastings o dan lofnod Wilson. Mae'r llun yn cyfateb i ddisgrifiad Thomas Wright o Wilson, 'During the latter years of his life, his face became red . . . he had a remarkably large nose, and was much displeased if any one appeared to observe it . . . He wore a wig tied or plaited behind into a knocker or club, and a triangular cocked hat . . .'*


**DAVID HARBOURNE**

**LLYFRAU**

**44 Bishops Walk, Llandaf**

**Caerdydd, CF5 2HE**

**Ffôn: (0222) 561154**

Dewis helaeth o lyfrau
ail-law Cymraeg a Chymreig
ar werth bob amser.